

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

**Pennaeth: Miss Elan Bolton**  
[yggswyddfa@gwynllyw.schoolsdu.org.uk](mailto:yggswyddfa@gwynllyw.schoolsdu.org.uk)

Heol Ffoli, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen NP4 8JD

Tel : (01495) 750405

[www.gwynllyw.weebly.com](http://www.gwynllyw.weebly.com)

Dydd Iau 17eg Medi

Annwyl Deuluoedd Blwyddyn 6,

Gobeithiwn y bydd y llythyr hwn yn eich cyrraedd chi i gyd yn iach ac yn setlo i drefn newydd. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch o glywed bod blwyddyn 7 wedi ymgartrefu'n dda yng Ngwynllyw ac yn mwynhau dysgu pob math o bethau newydd a chyffrous. Er gwaethaf y newidiadau a'r anallu i ddilyn y rhaglen bontio arferol, maent eisoes wedi sefydlu arferion newydd, profiadau newydd ac yn mwynhau bod yn ôl mewn ysgol gyda'u ffrindiau hen a newydd.


Mae Blwyddyn 6 yn flwyddyn gyffrous i'r teulu i gyd wrth i chi baratoi i symud tuag at yr ysgol uwchradd. Erbyn hyn dylech fod wedi ymweld â'r ysgol o leiaf ddwywaith a dylech fod wedi bod yn ymweld â ni yr wythnos hon. Yn anffodus, nid yw'n bosib i chi ymweld â'r ysgol yn gorfforol ar hyn o bryd ond rydym yn gweithio ar ffyrdd i ddod â'r ysgol atoch chi.

Rydym yn ymwybodol iawn y bydd yn rhaid i chi wneud penderfyniadau ynghylch pa ysgol uwchradd yr hoffech ei mynychu'n fuan iawn a bod hyn fwy na thebyg yn ymddangos fel rhywbeth brawychus pan na allwch ddod i'r ysgol yn gorfforol.

Yr wyf yn siŵr eich bod yn meddwl sut y mae'n bosibl dod â'r ysgol atoch? Yn yr oes rithiol hon mae gennym nifer o ffyrdd y gallwn sicrhau eich bod yn gallu cael y profiad gorau posibl o ystyried yr amgylchiadau a heb beryglu neb.

## **Taith Rithiol**

Rydym wrthi'n ffilmio taith rithiol o amgylch yr ysgol. Byddwch yn clywed cyflwyniad gan y gwahanol adrannau yma yng Ngwynllyw yn ogystal â disgyblion presennol Gwynllyw a bydd hwn ar gael ar YouTube i chi ei wyllo gartref ac yn yr ysgol.



### **Hawl i Holi**

Rydym yn mynd i weithio gyda'ch athrawon a'ch penaethiaid i ddod o hyd i adeg lle gallwn siarad â disgyblion yn eich dosbarthiadau drwy Google Meets. Byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i ni a gobeithio y byddwn yn gallu cael rhai disgyblion blwyddyn 7 o'ch ysgol yn y cyfarfod i ddweud wrthy'ch i gyd am eu profiadau yng Gwynllyw hyd yma.

### **Gweithgareddau Chwaraeon**

Mae ein hadran Addysg Gorfforol ardderchog wedi llunio amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon y gallwch eu gwneud yn eich ysgolion cynradd. Byddant yn parhau i ychwanegu at y rhain a byddwch yn cwblhau'r gweithgareddau hyn yn eich ysgolion gyda'ch athrawon fel blas ar yr hyn sydd i ddod.

### **Cyfringau Cymdeithasol**

Mae gennym gyfrifon ar Facebook, Twitter ac Instagram. Dilynwch ni gan ein bod yn aml yn rhannu gwybodaeth drwy'r tudalennau hyn.

### **Gwefan Ysgol**

Mae gan wefan ein hysgol dudalen bontio bwrpasol, ewch i'n gwefan a dewiswch y tab 'Pontio', fe welwch fod llawer iawn o wybodaeth eisoes yma o'r llynedd a byddwn yn diweddarau hyn wrth i ni fynd gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i chi.

Gobeithiwn y byddwch yn gallu dod i Wynllyw yn y pen draw, gallu gweld yr ysgol yn iawn a chwrdd â'r holl staff yma. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol drwy anfon e-bost [pontio@gwynllyw.org](mailto:pontio@gwynllyw.org) neu gysylltu â swyddfa'r ysgol ar y manylion uchod. Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn rhoi manylion cyswllt i ni, bydd hyn yn ein galluogi i roi copi electronig o brospectws yr ysgol i chi a rhoi'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i chi yn ogystal â thrwy'r ysgol. Dilynwch y ddolen isod a rhowch y wybodaeth y gofynnwyd amdanynt.

[https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSe\\_mBdZPjepuulaZVqKXKo9bcAaYL9AVMuEcQm2Vy7CPi8uGA/vi/ewform?usp=sf\\_link](https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSe_mBdZPjepuulaZVqKXKo9bcAaYL9AVMuEcQm2Vy7CPi8uGA/vi/ewform?usp=sf_link)

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi i gyd cyn hir, tan hynny, arhoswch yn ddiogel a byddwn yn cwrdd â chi'n bersonol pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Cofion cynnes,

Miss E Bolton  
Pennaeth

Mrs Rh Dickenson  
Pennaeth Cynorthwyol

Mr G Evans  
Pennaeth Blwyddyn 7 / Pontio